Rhybudd o Benderfyniadau **Cyfarfod y Cabinet** a gynhaliwyd yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell ar **Ddydd Mawrth, 1 Tachwedd 2022**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5.00pm Dydd Iau, 3 Tachwedd 2022. Y dyddiad olaf i dderbyn cais i alw unrhyw benderfyniad i mewn yw 5.00pm Dydd Iau, 10 Tachwedd 2022 drwy ei anfon at Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) Dydd Gwener, 11 Tachwedd 2022.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Bryan Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Catrin M S. Davies, Clive Davies, Gareth Davies, Keith Henson, Wyn Thomas, Matthew Vaux ac Alun Williams.

HEFYD YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr Euros Davies, Elizabeth Evans, Keith Evans, Geraint Wyn Hughes a Gareth Lloyd.

(10.00am - 11.28am)

75 Ymddiheuriadau

i. Ymddiheurodd y Cynghorydd Rhodri Evans am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.
ii. Ymddiheurodd James Starbuck, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Meinir Ebbsworth, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion a Diwylliant a Rhodri Llwyd, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol am nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

76 Materion Personol

i. Estynnwyd llongyfarchiadau i Dewi Jenkins ar ei lwyddiant diweddar gyda'i gi, Jock, yn y Treialon Cŵn Defaid Rhyngwladol.
ii. Estynnwyd llongyfarchiadau i S4C wrth i'r sianel ddathlu 40 mlynedd o ddarlledu.

77 Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu

i. Datganodd y Cynghorydd Keith Henson fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 85 a gadawodd y cyfarfod pan oedd y mater hwnnw'n cael ei drafod.
ii. Datganodd Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 85, yn unol â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Gweithwyr Llywodraeth Leol a gadawodd y cyfarfod pan oedd y mater hwnnw'n cael ei drafod.
iii. Datganodd y Cynghorydd Gareth Davies fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 88.

78 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny

Cadarnhau bod cofnodion Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 4 Hydref 2022 yn gywir.

Materion yn codi: Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion.

Materion yn codi o gofnodion Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 6 Medi 2022: Eglurodd y Cynghorydd Keith Henson bod cywiriad i'r Adroddiad ar y Strategaeth ar gyfer Gwefru Cerbydau Trydan a gyflwynwyd i'r Cabinet. Nodwyd y byddai angen tua 8,000 o bwyntiau gwefru yng Ngheredigion yn 2025 a thua 24,000 yn 2030 yn hytrach na'r ffigurau gwreiddiol a nodwyd yn yr adroddiad.

79 Unrhyw ddeisebau a dderbyniwyd

Dim.

80 Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu

Dim.

81 Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda

i. Adroddiad gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar Ddatblygu Asedau/ Eiddo Gwag.

Nodwyd yr adroddiad.

82 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ynghylch Strategaeth Gorfforaethol Ddrafft 2022-27 gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

PENDERFYNIAD:

i. Argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Strategaeth Gorfforaethol ddrafft 2022- 2027 (gan gynnwys yr Amcanion Llesiant Corfforaethol).
ii. Nodi adborth y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a chytuno i'r newid a ganlyn i'r geiriad i bwynt bwled 5 ar dudalen 29:
"*Byddwn yn parhau i fynd i'r afael â materion ail gartrefi, perchnogaeth cartrefi gwyliau a throi adeiladau preswyl yn llety gwyliau drwy ofyn am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth o dan y Ddeddf Gynllunio a'r Gwasanaeth Trethi*".

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Er mwyn bwrw ymlaen â pharatoi Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027.

83 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ynghylch Adroddiad Blynyddol am Sylwadau o Ganmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth - 2021/2022 gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

PENDERFYNIAD:

1. I nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol y Cyngor am Sylwadau o Ganmoliaeth, Cwynion a Gweithgarwch Rhyddid Gwybodaeth 2021-22 (Atodiad 1).
2. I nodi cynnwys Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon (Atodiad 2).
3. I gytuno i barhau i ymwneud â gwaith Awdurdod Safonau Cwynion (CSA) Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - gan gynnwys cael mynediad at hyfforddiant a darparu data perfformiad.
4. I hysbysu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o ganlyniad ystyriaethau'r Cyngor a'r camau gweithredu arfaethedig.

5. Nodi’r adborth o’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Er mwyn sicrhau gwelliant parhaus a sicrhau bod yr Aelodau etholedig yn ymwybodol o berfformiad y Cyngor o ran Sylwadau o Ganmoliaeth, Cwynion, Rhyddid Gwybodaeth/Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol a Gweithgarwch yr Ombwdsmon.

84 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ynghylch Siarter Troseddau Casineb - Cymorth i Ddioddefwyr gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

PENDERFYNIAD:
1. Cytuno ar ran Cyngor Sir Ceredigion i ymrwymo i Siarter Troseddau Casineb Cymorth i Ddioddefwyr.
2. Nodi’r adborth o’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol.

Y *rheswm dros y penderfyniad*
Er mwyn atgyfnerthu'r gwaith da sydd eisoes ar waith gan yr Awdurdod Lleol o ran Troseddau Casineb ac i gynnig fframwaith i sicrhau bod ymrwymiad llawn yn digwydd ar bob lefel o'r sefydliad.

85 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ynghylch Pennu Ffioedd Cartrefi Gofal - Ffioedd y Sector Annibynnol a'r Awdurdod Lleol

PENDERFYNIAD:
1. Cymeradwyo’r ffioedd wythnosol canlynol ar gyfer Cartrefi Gofal preifat yng Ngheredigion yn 2022/23:

Preswyl	£760.00
Preswyl EMI	£812.00
Nyrsio	£883.30
Nyrsio EMI	£883.30

gan ddod i rym ar 04/04/2022.

2. Cymeradwyo’r ffioedd wythnosol canlynol ar gyfer Cartrefi Gofal Preswyl y Cyngor yng Ngheredigion yn 2022/23:

Preswyl	£760.00
Preswyl EMI	£812.00

gan ddod i rym ar 04/04/2022.

3. Cymeradwy at ddibenion cyfraniad unigolion at eu gofal (yn dilyn canlyniad asesiad ariannol), daw’r newidiadau yn ffioedd Cartrefi Gofal Preswyl y Cyngor i rym ar 31/10/2022.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Er mwyn cytuno ar ffioedd i bobl hŷn ar gyfer 2022/23 a’u pennu**.**

86 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Gofal ynghylch Darpariaeth Breswyl er mwyn Cefnogi a Gofalu am Blant a Phobl Ifanc yng Ngheredigion

PENDERFYNIAD:

1. Cytuno mewn egwyddor i'r syniad fod y model Llety Diogel i Blant yng Ngheredigion yn cael ei ehangu i gwmpasu mwy o ddarpariaethau preswyl bach ledled y Sir i gwrdd ag anghenion presennol y boblogaeth a'r anghenion yn y dyfodol. Drwy hyn, creu model llety preswyl ar sail Gydol Oes.
2. Cefnogi'r egwyddor o gyflwyno ceisiadau i Arolygiaeth Gofal Cymru i gofrestru'n hyblyg.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*

- I wneud y mwyaf o'r lleoliadau yn y Sir.
- I gefnogi plant a phobl ifanc i gadw eu cysylltiadau lleol a'u hunaniaeth leol.
- I osgoi gwario ar leoliadau y tu allan i'r sir.
- I fuddsoddi mewn gwasanaethau a darpariaeth yn lleol ar gyfer plant a theuluoedd.

87 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion a Diwylliant ynghylch Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol ar Gyrff Llywodraethol

PENDERFYNIAD:

Cadarnhau enwebu'r sawl a enwir yn yr adroddiad yn gynrychiolydd yr Awdurdod Lleol ar Gorff Llywodraethol yr ysgol berthnasol.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*

Er mwyn enwebu cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol ar Gyrff Llywodraethol.

88 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch Mabwysiadu Priffordd: Llys Ardwyn (Bryn Ardwyn), Aberystwyth

PENDERFYNIAD:

Cymeradwyo'r bwriad i fabwysiadu Llys Ardwyn (Bryn Ardwyn) drwy broses Adran 38 o Ddeddf Priffyrdd 1980 a'i chynnal ar gost y cyhoedd wedi hynny.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*

I alluogi'r heol i gael ei chynnal ar gost y cyhoedd.

89 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch Mabwysiadu Priffordd: Pen-yr-Angor, Trefechan, Aberystwyth

PENDERFYNIAD:

Cymeradwyo'r bwriad i fabwysiadu Pen-yr-Angor, Trefechan, Aberystwyth drwy broses Adran 278 ac Adran 38 o Ddeddf Priffyrdd 1980 a'i chynnal ar gost y cyhoedd wedi hynny.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*

I alluogi'r heol i gael ei chynnal ar gost y Cyhoedd.

90 **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ynghylch Adroddiad Blynyddol y BGC Ceredigion: Strategaeth Mynd i'r Afael a Chaledi 2021-22 gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**

Nodwyd yr adroddiad a'r adborth o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol.

91 **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ynghylch Adroddiad Rheoli Perfformiad Y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol Chwarter 4 2021/22**

Nodwyd yr adroddiad.

92 **Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Cabinet**

Dim.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar ddydd Mawrth, 6 Rhagfyr 2022

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____